# ANGEN HELP I DALU AM OFAL PLANT?

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil County Borough Council

Cynnig Gofal Plant i Gymru – Cymorth gyda chostau gofal plant i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant 3-4 oed. Gall rhieni hawlio hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru yr wythnos, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. Mae hyn wedi'i rannu'n 12.5 awr o addysg a 17.5 awr o ofal plant. Yn ystod tymor yr ysgol a'r 30 awr llawn yn ystod gwyliau.

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

Dechrau'n Deg
Flying Start

Gofal Plant Di-dreth – Mae gofal plant di-dreth ar gael i rieni sy'n gweithio er mwyn eu helpu gyda chostau gofal plant. Mae rhieni'n talu arian i gyfrif gofal plant di-dreth y mae'r llywodraeth yn ei ychwanegu ato. Am bob £8 rydych chi'n ei dalu i mewn i'r cyfrif hwn, bydd y llywodraeth yn talu £2 i'w ddefnyddio i dalu eich darparwr.

Mae arian Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd a chanddynt blant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Gall plant o'r ardaloedd hyn fynychu lleoliadau gofal plant cymeradwy am hyd at 2.5 awr y dydd. Amser tymor yn unig

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful ar 01685 727400, neu e-bostiwch fis@merthyr.gov.uk**

Credydau treth – Mae Credydau Treth Plant yn cefnogi teuluoedd â phlant. Efallai y byddwch yn gymwys i gael help tuag at gostau gofal plant, os yw'r gofal plant rydych chi'n ei gael wedi'i gofrestru'r â'r CIW. Os ydych chi'n gweithio, gallech gael credydau treth ychwanegol i helpu gyda'ch costau gofal plant.
Gallwch hawlio p'un a ydych mewn gwaith ai peidio.
Mae Credydau Treth Gwaith yn cefnogi pobl sydd ar incymau isel drwy ychwanegu at eu henillion, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi neu'n hunangyflogedig.
Nid yw Credydau Treth Plant a Chredydau Treth Gwaith yn effeithio ar daliadau Budd-dal Plant sy'n cael eu talu ar wahân.

Cymryd Rhan
TAKING PART